

# cta

community transport  
association

CYMDEITHAS CLUDIANT CYMUNEDOL



## Cludiant Cymunedol Dolen Teifi

### Prosiect Peilot Cerbyd Trydan Brechfa

Mae llawer o fanteision i fyw mewn cymuned wledig - mae mannau agored eang, awyr iach a golygfeydd naturiol hardd yn eu plith. Fodd bynnag, mae yna heriau ynghlwm â byw yn y wlad, ac mae cludiant yn un o'r heriau mwyaf. Gall pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig nad ydyn nhw'n berchen ar gar, ac nad oes ganddyn nhw wasanaeth bws rheolaidd nac unrhyw un y gallant ddibynnu arnynt i gael cludiant, ddiodef o dloidi trafndiaeth.

Roedd hyn i'w weld yn ardal Coedwig Brechfa, i'r gogledd o Gaerfyrddin, yng Ngorllewin Cymru. Mae ardal Brechfa yn wledig iawn a phrin iawn yw trafndiaeth gyhoeddus i drigolion lleol. Gall fod yn anodd, er enghraifft, i bobl gyrraedd apwyntiad meddyg teulu neu ysbyty lleol i ymweld â ffrindiau neu aelodau o'r teulu, os nad oes ganddyn nhw gar. Ym mis Mai 2018, canfu adroddiad ymgynghorol ar ran cronfa gymunedol fferm wynt leol fod trafndiaeth yn broblem wirioneddol i bobl leol yn ardal Brechfa ac amlygwyd yr anawsterau yr oedd pobl yn eu hwynebu pan oedd angen iddynt gyrraedd gwasanaethau a chyfleoedd hanfodol. Roedd Cludiant Cymunedol Dolen Teifi wedi ennill eu plwyf fel darparwr cludiant cymunedol yn Sir Gaerfyrddin, a gofynnwyd iddynt gyflwyno cais am gyllid i gronfa gymunedol y fferm wynt, gan weithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid lleol, gan gynnwys tîm Cysylltu Cymunedau yng Nghymru y CTA.

Roedd tîm Cysylltu Cymunedau yn gallu cynorthwyo Dolen Teifi i ysgrifennu'r cais am gyllid, amlinellu gwahanol fodolau darparu a mynychu cyfarfodydd rhanddeiliaid. Yn hydref 2019, cymeradwywyd £81,000 o gyllid ar gyfer prosiect peilot dwy flynedd gyda cherbyd amlbwrpas (MPV) trydan. Trwy'r cynllun peilot, mae pobl yn gallu defnyddio'r prosiect naill ai trwy fodel cynllun car cymunedol, gyda chefnogaeth gyrrwyr gwirfoddol, neu drwy ddull clwb car, sy'n galluogi pobl sydd angen defnyddio car yn breifat dros dymor byr i gyrraedd gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol a'r lleoedd y mae angen iddynt eu cyrraedd neu yr hoffent fynd iddynt.

I ategu'r prosiect, bydd bws mini 16 sedd Dolen Teifi ar gael hefyd i grwpiau cymunedol yn yr ardal gael mynd i gyfarfodydd clwb, neu ar wibdeithiau a theithiau dydd, pan nad yw cerbyd y prosiect yn ddigon mawr ar gyfer y grŵp. Bydd y prosiect yn cael effaith gadarnhaol dros ben ar fywydau pobl sy'n byw yn yr ardal a bydd yn cael gwared ar rwystrau cludiant tymor hir i lawer o bobl yn y gymuned leol.

“Mae defnyddwyr y gwasanaeth wedi dweud wrthym fod pobl wir yn ei chael yn anodd cyrraedd gwasanaethau hanfodol cyn i’r prosiect gael ei sefydlu oherwydd, gan ddibynnu ar ba gymuned rydych yn byw ynddi, nid oes gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus digon aml neu nid yw’n bodoli o gwbl mewn rhai lleoedd neu ar adegau penodol o’r dydd,” meddai Rod Bowen, Rheolwr Datblygu Cludiant Cymunedol Dolen Teifi. “Fel rheol, os nad oedd gennych gar ac na allech gael aelodau o’r teulu neu ffrindiau i fynd â chi i rywle, roeddech yn sownd.”

“Mae’r prosiect hefyd yn galluogi pobl i gadw gwell cysylltiad â’u teuluoedd a’u ffrindiau a chadw cysylltiad â chyfleoedd cymdeithasol, a gwyddom o siarad â defnyddwyr ein gwasanaeth y bu gostyngiad mewn unigrwydd ac arwahanrwydd a bod lles unigolion wedi gwella o ganlyniad i’r prosiect. Mae’r cynllun peilot hefyd yn rhoi cyfle unigryw i Gludiant Cymunedol Dolen Teifi brofi technoleg newydd trwy gynnal MPV trydan am y tro cyntaf ac asesu’r manteision o’u cymharu ag MPV disel. Bydd yr adborth gan yrwyr gwirfoddol a theithwyr yn ddiddorol o safbwynt eu profiadau a sut y gallwn ddefnyddio cerbydau trydan wrth symud ymlaen”.

---

## Beth yw Cysylltu Cymunedau yng Nghymru?

Mae prosiect Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn cael ei gynnal gan y Gymdeithas Cludiant Cymunedol ac yn cael ei gyllido trwy Raglen Cymunedau Gwledig - Datblygu Gwledig 2014-2020 Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Ei nod yw cefnogi cludiant cymunedol yng Nghymru trwy greu partneriaethau newydd, dod â chyllid i mewn i’r sector a chreu rhwydweithiau cludiant newydd.

**Gallwch gael gwybod mwy am Cysylltu Cymunedau yng Nghymru yn [ctauk.org/cciw-cymraeg](http://ctauk.org/cciw-cymraeg).**

